

## Gwybodaeth am Profion hormon gwrth- mulleraidd (AMH)

### **Beth yw prawf hormon gwrth-mulleraidd (AMH)?**

Mae hormon gwrth-mulleraidd (AMH) yn hormon a gynhyrchir gan y celloedd o gwmpas yr wyau yn eich ofariau. Mae AMH yn arwydd o gronfa ofaraidd; y nifer o wyau sydd gennych ar ôl yn eich ofariau yw eich "cronfa ofaraidd". Mae'r prawf AMH neu hormon gwrth-mulleraidd yn brawf gwaed labordy sydd ar gael i asesu cronfa ofaraidd neu gyfrif wyau menyw. Gellir cymryd y prawf AMH unrhyw bryd yn eich cylch mislif gan bod y mesuriad yn parhau'n gymharol sefydlog drwy gydol y cylch hwnnw. Po fwyaf o wyau sydd gennych ar gael, yr uchaf yw maint yr AMH a gynhyrchir. Mae'n bosibl y bydd pennu'r lefel AMH yn ddefnyddiol wrth werthuso statws ffrwythlondeb presennol menyw.

Mae'r prawf AMH yn un prawf posibl o'r gronfa ofaraidd. Yn aml bydd arbenigwyr ffrwythlondeb yn defnyddio cyfuniad o brofion ffrwythlondeb er mwyn asesu cronfa ofaraidd menyw orau, gan gynnwys uwchsain drawsweiniol er mwyn cyfrif nifer y ffoliglau a lefelau hormonau gwaed eraill.

### **A yw profi AMH ar gael ar y GIG?**

Nac ydyw, yn anffodus nid yw'r prawf AMH ar gael am ddim ar y GIG yn BIPAB. Fodd bynnag, mae ar gael fel opsiwn hunan-ariannu drwy drefniant gyda labordy Biocemeg BIPAB ac Ysbyty Athrofaol Cymru am ffi.

### **Sut mae trefnu prawf AMH yn BIPAB?**

Caiff AMH ei brofi drwy sampl gwaed (mae angen >1 ml o waed mewn cynhwysydd â chlawr melyn) Gellir samplo gwaed yn adan fflebotomi'r ysbyty neu drwy eich meddyg teulu



Anfonir y sampl gwaed i labordy Biocemeg BIPAB  
(dim ond ar ôl i daliad gael ei wneud y caiff ei brosesu)



Er mwyn gwneud taliad am y prawf AMH, ffoniwch y labordy Biocemeg o leiaf ddiwrnod ar ôl i'r sampl gwaed gael ei gymryd (er mwyn caniatáu amser i'r sampl gael ei dderbyn yn y labordy) ar 01633234466 (Ysgrifennydd Biocemeg) neu 01633493263 (Y Biocemegydd ar Ddyletswydd).  
Ffefrir talu â cherdyn.



Caiff y sampl gwaed ei anfon i Ysbyty Athrofaol Cymru lle y caiff y prawf AMH ei brosesu

### **Pa mor hir bydd yn cymryd i gael canlyniadau'r prawf AMH?**

Mae'n bosibl y bydd yn cymryd tua 2 wythnos i ganlyniadau AMH fod ar gael. Caiff canlyniadau profion AMH eu trafod yn eich apwyntiad nesaf yn y Clinig Ffrwythlondeb (fodd bynnag os oes gennych ymholiadau brys, cysylltwch â'n Hysgrifennydd Ffrwythlondeb yn BIPAB yn Ysbyty Neville Hall).

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /  
This document is available in English".**

Awdur: Miss R Squires  
Obstetregydd a Gynaecolegydd Ymgynghorol